

**Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd
Llanfihangel-y-Creuddyn ar Nos Lun 4ydd Ebrill, 2016 am 7.30 y.h.**

Presennol:**Cyng. C. Lloyd-Morgan (Cadeirydd)****Cyng. T.A.G. Davies****Cyng. Sh. Edwards****Cyng. J.J. Powell****Cyng. A. Evans****Cyng. J. George****Cyng. L.L. Owen****Cyng. H.M. Evans****Cyng. B. Jenkins****Cyng. R. Jones****Ymddiheuriadau****Cyng. E. Lewis****Materion Personol**

Dim materion i'w nodi.

Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, 22ain Chwefror 2016 fel cofnod cywir.

Cynigiwyd cywirdeb gan y Cyng. L. Owen ac eiliwyd gan Cyng. J. Powell.

Materion yn Codi o'r Cofnodion**Asesiad Risg ac Asedau**

Dim materion yn codi.

Carthffosiaeth Pentref Llanfihangel-y-Creuddyn

Ni dderbyniwyd diweddariad pellach. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir am ddiweddariad.

Gweithred: Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir.

Coed ar y B4340 Llechwedd Dyrys

Adroddwyd fod y perchennog tir, yn dilyn rhybudd statudol gan y Cyngor Sir wedi gwneud ychydig o waith ar y safle. Deallir fod Rob Duke, Swyddog gyda'r Cyngor Sir wedi bod mewn trafodaethau gyda'r perchennog tir a derbyniwyd gwybodaeth bod y perchennog tir yn bwriadu gwneud gwaith ychwanegol ar y safle'r diwrnod canlynol. Adroddwyd yn y cyfarfod diwethaf fod Rob Duke wedi adnabod nifer o goed sydd angen sylw brys o'u torri lawr neu docio er diogelwch ac yn dilyn trafodaeth dangoswyd pryder na fydd y gwaith a gyflawnir y diwrnod canlynol yn mynd i fod yn ddigonol o ran diogelwch o ystyried y gwaith a gyflawnir ar y safle eisoes.

Penderfynwyd oedi tan y diwrnod canlynol i weld natur y gwaith a gyflawnir gan y perchennog tir ac yna trefnu cyfarfod brys o'r Cyngor Bro i drafod ymhellach pe byddai angen.

Cytunwyd hefyd pe byddai angen cysylltu ymhellach gyda'r Cyngor Sir y dylid danfon copi o'r ohebiaeth at y Brif Weithredwraig. Nododd y Cynghorydd Rowland Jones y byddai hefyd yn cysylltu gyda'r Brif Weithredwraig am y sefyllfa.

Dŵr ger y Gors

Derbyniwyd e-bost wrth Mr. Brian Thomas, Swyddog o'r Cyngor Sir yn nodi fod y gwaith wedi ei flaenoriaethu a'i hychwanegu at raglen o waith, ond nid oes dyddiad cychwyn wedi clustnodi hyd yn hyn.

Gweithred: Y Clerc i gadw llygad ar y sefyllfa.

Sefyllfa Band Llydan o fewn yr Ardal

Dim mwy o wybodaeth i'w hadrodd.

Ffos o Brenan i Lwynbrain

Y broblem yn parhau.

Gweithred: Y Clerc i gysylltu ar frys gyda'r Cyngor Sir i nodi bod y broblem yn gwaethygu.

Safle We

Trefniadau mewn llaw i adeiladu'r safle we newydd.

Rhiw Dolgwybedig

Dim mwy o fanylion.

Gweithred: Y Clerc i gysylltu ar frys gyda'r Cyngor Sir i gael diweddariad.

Coed Ffordd Uchaf Llanafan

Cadarnhaodd Cyng. L. Owen fod Mr. Haydn Lewis, Swyddog Ceidwad Hawliau Tramwy a Chefn Gwlad Cyngor Sir Ceredigion wedi mynychu cyfarfod safle gydag ef a'r Cadeirydd ac yn ddiweddarach Mr. Lewis wedi ymweld y safle gyda contractwr i drafod y gwaith sydd angen gwneud yn y lleoliad. Bwriad yw bydd y contractwr yn dechrau ar y gwaith o dacluso'r llwybr ar Ffordd Uchaf yn fuan.

Rhoddion

Derbyniwyd lythyr o ddiolch wrth bapur bro Y Ddolen am y rhodd a dderbyniasant wrth y Cyngor Bro:

Goleuadau Stryd newydd yn Llanafan

Gweithred: y Clerc i wneud ymholiadau am gyfarfod safle.

Goleuadau Stryd presennol yn Llanafan nad oedd yn gweithio

Adroddodd Cyng. L. Owen fod y gwaith i adnewyddu'r golau wedi ei gwblhau.

Materion angen sylw'r Cyngor Sir

Maes y Felin, Llanafan

Nid oes diweddariad i'w adrodd er y deallir fod y broblem yn parhau gydag un o'r cerbydau i'w weld mewn defnydd ar y ffordd gyhoeddus yn gynnar ar ambell i fore. Y Clerc i ymadrodd hyn i'r awdurdodau perthnasol oherwydd y tor cyfraith. Y Clerc hefyd i gysylltu gyda'r Swyddog Heddlu a Thai Ceredigion am ddiweddariad.

Gweithred: Y Clerc i gysylltu gyda swyddogion perthnasol.

565

Materion Cyllidol

Nodwyd fod sefyllfa gyllidol y Cyngor Cymuned fel y nodir: £5,004.20 yn y Cyfrif Cyfredol; £27.68 yng nghyfrif Maes Chwarae a £1,985.01 yn y Cyfrif Cadw ar y 29ain o Chwefror, 2016.

Tendrau

Derbyniwyd tendrau oddi wrth un ymgeisydd ar gyfer torri'r glaswellt ar y Tir Comin yn Llanfihangel y Creuddyn (£180) ac ar gyfer tocio'r Ffordd Uchaf ac ati yn Llanafan (£170). Gan mai dyma'r unig dendrau, fe dderbyniwyd y ddau swm.

Cynigiwyd y penderfyniad gan Cyng. L. Owen ac eiliwyd gan y Cyng. J. Powell.

Gweithredu: Y Clerc i gadarnhau drwy lythyr derbyn y tendrau gyda'r ymgeisydd

Adolygiad o Gludiant ôl 16 rhwng y Cartref a'r Ysgol/Coleg a'r Ddarpariaeth Seddi Gwag

Adroddodd y Clerc ei bod wedi danfon ymateb i'r Cyngor Sir ar yr ymgynghoriad uchod. Adroddodd hefyd ei bod wedi cysylltu gyda chynghorau bro gyfagos yn nodi teimladau cynghorwyr Cyngor Bro Trawsgoed am yr ymgynghoriad ac mai gan Gyngor Bro Ystrad Meurig yn unig y cafodd ymateb a oedd yn nodi eu bod o'r un farn a Chynghorwyr Trawsgoed.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:

Graffiti o fewn yr Ardal

Gohebiaeth wrth y Cyngor Sir mewn ymateb i ymholiad wrth y Cyngor Bro a oedd polisi ar gael i ddelio gyda graffiti o fewn Ceredigion, fel y cafwyd yn ardal Cyngor Bro yma yn ystod y misoedd diwethaf. Nododd yr ymateb er bod Cyngor Sir Ceredigion yn gwneud pob ymdrech i geisio cael gwared ar graffiti nid oedd polisi ar gael gan y Cyngor Sir ar ymdrin gyda graffiti ond annog i gysylltu gyda'r Heddlu pe byddid yn gweld achosion. Cyfeiriwyd hefyd at ymgyrch lleol '*Caru Ceredigion*' ble byddai'r cymunedau lleol yn medru gwneud eu rhan yn parchu'r amgylchedd a'r ardal.

Cais Rhyddud Gwybodaeth

Derbyniwyd ymholiad drwy Ryddud Gwybodaeth gan Nicholas K. Alderton, BA (Hon's) MA, Myfyriwr Ymchwil Prifysgol Caerdydd yn gofyn am wybodaeth am gyfanswm y cyllid mae'r Cyngor Bro wedi/neu yn clustnodi ar gyfer dathliadau Penblwydd y Frenhines Elizabeth drwy weithgareddau/digwyddiadau gan gynnwys partïon stryd a digwyddiad 'Clean for the Queen'.

Y Clerc i ymateb na chlustnodwyd nac y bwriedir clustnodi cyllid ar gyfer y Dathliadau penodol.

Ceisiadau Cynllunio

Ceisiadau Newydd

Ni chymerodd y Cynghorydd Sir Rowland Jones ran mewn trafodaethau wrth ystyried y ceisiadau cynllunio dan sylw.

Datganodd Cyng. B. Jenkins ddiddordeb wrth drafod y ddau gais gyntaf ac ymadawodd â'r ystafell yn ystod y trafodaethau hynny.

A160185: *Erection of Stable Block with Concrete Hardstanding and Gabion Retaining Wall.* Penybryn, Llanafan.

Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais.

A160188: *Erection of Steel Framed Hay Barn and Site Levelling Works.* Penybryn, Llanafan.

Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais.

A160201: *Proposed Attic Conversion, formation of 2 Dormer Windows and Roof Light to Front elevation with roof lights to rear of building.* Glasdir, New Cross.

Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais.

A160205: *Installation of 1 no. Cesspool/elsan Toilet Waste Facility and Associated Works.* Dolau Afon, Llanafan.

Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais.

UNRHYW FATER ARALL

Dwr Cymru a Cysylltu gyda System Garthffosiaeth yn Llanafan

Cafwyd trafodaeth am y datblygiadau diweddar am yr uchod. Mae Dwr Cymru drwy eu contractwyr ar fin dechrau ar y gwaith o ddodi System Garthffosiaeth ychwanegol yn rhan uchod o Lanafan ac yn ei thro budd y ffordd drwy Lanafan ar gau am ran helaeth o'r misoedd nesaf yma. Mae nifer o'r trigolion lleol wedi bod mewn cyswllt gyda'r Cynghorwyr Cymuned lleol yn datgan pryder am y gost enfawr fydd i drigolion i ymuno gyda'r system Garthffosiaeth newydd yma. Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae yna nifer o lythyru nol a mlaen wedi bod rhwng y Cyngor Cymuned a Dwr Cymru i geisio datrys y broblem a cael y cost yn fwy fforddiadwy i berchnogion tai.

Hyd yn hyn mae'r Cyngor Bro yn disgwyl ymateb Dwr Cymru i gais am Gyfarfod Cyhoeddus yn Llanafan i geisio sicrhau datrysiad.

Bin Halen yng Nghnwch Coch

Derbyniwyd e-bost gan y Cyngor Sir yn cadarnhau y byddid yn doddi bin halen newydd ar y safle wrth ymyl arwydd Cnwch Coch wrth fynd i fewn i'r pentref o gyfeiriad Rhydyfagwyr.

Materion angen sylw gan y Cyngor Sir

Gwasanaeth y Glanhawr ffordd

Adroddwyd fod nifer o ffyrdd yr ardal angen sylw'r glanhawr ffordd (sweeper) oherwydd bod y tywydd gwlyb diweddar wedi achosi'r ffyrdd i fod yn fwdlyd.

Dreiniau Dwr

Nodwyd fod y drain ger Cwmseiri wedi gorlenwi ac angen sylw brys. Hefyd nifer o ddraeniau yn Llanafan wedi gorlenwi ac angen eu gwaghau ar frys.

Drain ger Brynhyfryd, Llanfihangel-y-Creuddyn. Cyfeiriwyd fod y sefyllfa yn parhau a fod y drain yn agored ac yn hollol beryglus ac yn ei thro y dwr yn erydi'r ffordd wrth ei hymyl. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i ddatrys y broblem fel mater o frys.

Tyllau yn y Ffyrrdd

Cyfeiriwyd fod nifer o dyllau yn y ffyrdd yn yr ardal a bod yna dwll eithaf cas gyferbyn a'r hen siop yng Nghnwch Coch.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Lun 16eg Mai, am 7.30 y.h. yn Neuadd Lisburne.